

Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd

Nodyn canllaw ar y broses o ymchwilio i wasanaethau a ddarparwyd gan Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif a allai fod wedi'u darparu'n annigonol a'r dull o benderfynu p'un a ddylid atal neu ostwng ffi Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif

Mai 2016

Diben

1.1 Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch, mae'r Comisiwn wedi datblygu'r nodyn hwn er mwyn nodi'r broses rydym yn bwriadu ei dilyn pan ddown yn ymwybodol o wasanaeth a ddarparwyd gan Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif a all fod wedi'i darparu'n annigonol. Mae hefyd yn sefydlu'r broses ar gyfer penderfynu ar y ffioedd y dylai'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu'r Swyddog Cyfrif fod â hawl iddynt.

1.2 Yn y canllawiau hyn byddwn, at ei gilydd, yn defnyddio 'Swyddog Cyfrif' i gyfeirio at y Swyddog Cyfrif a'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol. Lle sonnir am y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn unig, nodir hyn yn benodol.

1.3 Er yr ymdrinnir â phob achos yn unol â'i ffeithiau ac amgylchiadau ei hun, mae'r canllawiau hyn yn rhoi awgrym ar y ffactorau a'r prosesau y disgwylir i'r Comisiwn eu hystyried a'u dilyn wrth benderfynu p'un a yw gwasanaeth wedi'i ddarparu'n annigonol ac wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un a ddylid atal neu ostwng ffi ac, os felly, o faint.

Cefndir

1.4 Mae gan Swyddogion Cyfrif hawl gyfreithiol i adennill eu taliadau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarparwyd, neu'r treuliau yr aed iddynt, ar gyfer, neu mewn cysylltiad â refferendwm y DU os:

- cafodd y gwasanaethau eu darparu o reidwydd, neu yr aed i'r treuliau o reidwydd, er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffordd effeithlon ac effeithiol; ac
- nad yw cyfanswm eu taliadau yn mynd uwchlaw'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill a nodir yn Rheoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Taliadau Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol) 2016 neu a bennwyd yn unol â hwy

1.5 Mae'r gorchymyn yn nodi'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill ar gyfer gwasanaethau neu dreuliau o unrhyw ddisgrifiad a nodwyd ac, yn gyffredinol, ni all y Swyddog Cyfrif adennill mwy na'r swm hwnnw mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau neu dreuliau.

1.6 Lluniwyd Rheoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Taliadau Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol) 2016 ar 22 Mawrth 2016, ac mae'r canllawiau a'r adnoddau ategol ar gael [yma](#).

1.7 Mae'r Gorchymyn Taliadau yn nodi'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill ar gyfer pob ardal bleidleisio, sy'n cynnwys dwy elfen:

- Yr uchafswm **y gellir ei adennill** gan Swyddog Cyfrif mewn perthynas â gwasanaethau penodol a ddarparwyd (ar yr amod bod y gwasanaethau hynny wedi'u darparu o reidwydd er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffodd

effeithlon ac effeithiol). Mae'r Gorchymyn yn rhestru'r gwasanaethau penodol fel a ganlyn:

- Cynnal y refferendwm;
- Cyflawni dyletswyddau'r Swyddog Cyfrif yn y refferendwm; a
- Gwneud trefniadau ar gyfer y refferendwm

Hefyd, mae'n ddyletswydd gyffredinol ar y Swyddog Cyfrif mewn refferendwm i gyflawni unrhyw weithredoedd a phethau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y refferendwm yn effeithiol yn y modd a ddarparwyd gan reolau'r refferendwm.¹

- Yr uchafswm y gellir ei adennill gan Swyddog Cyfrif mewn perthynas â threuliau penodol yr aed iddynt mewn cysylltiad â'r refferendwm (ar yr amod yr aed i'r treuliau hynny o reidrwydd er mwyn cynnal y refferendwm mewn ffodd effeithlon).

1.8 Cyfeirir at yr elfen gyntaf hon yn gyffredinol fel 'ffi bersonol' y Swyddog Cyfrif a dyma destun y nodyn canllaw hwn.

1.9 O dan baragraff 16(2) a (3) o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, mae gan y Comisiwn y pŵer i ostwng neu atal ffi unrhyw Swyddog Cyfrif os ystyrir na wnaeth ddarparu ei wasanaethau'n ddigonol.

Proses

1.10 Byddai'r Comisiwn yn dod yn ymwybodol o broblem mewn perthynas â pherfformiad annigonol posibl gan Swyddog Cyfrif drwy amrywiaeth o lwybrau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- monitro perfformiad Swyddogion Cyfrif yn y refferendwm, yn cynnwys casglu gwybodaeth reoli gan Swyddogion Cyfrif
- gwybodaeth a ddarparwyd gan Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ar berfformiad Swyddogion Cyfrif yn eu hardal bleidleisio
- arsylwadau gan gynrychiolwyr o'r Comisiwn
- ymholiadau neu gwynion a wnaed i'r Comisiwn
- adroddiadau gan y cyfryngau

1.11 Pan ddaw'r Comisiwn yn ymwybodol o broblem yn ystod y cyfnod cyn diwedd y refferendwm, y flaenoriaeth fydd cymryd camau i sicrhau y caiff y bleidlais ei chynnal yn llwyddiannus. Yn yr achosion hyn, bydd ein timau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan weithio gyda'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol, yn cysylltu â'r awdurdod lleol dan sylw cyn gynted ag y bo'n ymarferol i drafod y mater a'r camau gweithredu posibl i ddatrys y sefyllfa. Bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi cymorth lle bo angen i sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd uchel i bleidleiswyr. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn atal y Comisiwn rhag ymchwilio i'r mater wedi hynny a phenderfynu ar y ffioedd y dylai'r Swyddog Cyfrif fod â hawl iddynt. Bydd y Comisiwn yn cofnodi unrhyw drafodaethau o'r fath a'r cymorth a roddwyd.

¹ Paragraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

1.12 Gallai'r Comisiwn hefyd ddod yn ymwybodol o broblem yn ystod y cyfnod ar ôl y refferendwm.

Asesiad porth

1.13 Caiff ymholiadau, cwynion a gwybodaeth fonitro a gyflwynir i'r Comisiwn eu cofnodi fel mater o drefn gan ein timau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yna cânt eu hadolygu gan ein Tîm arwain. Wrth adolygu'r canllawiau hyn neu wrth iddynt gael eu hatgyfeirio atom gan ein timau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd y Tîm arwain yn atgyfeirio unrhyw fater **yr ymddengys** ei fod yn nodi y gall fod problem **ddifrifol** o ran perfformiad mewn perthynas â Swyddog Cyfrif penodol (gan ystyried y ffactorau a nodir yn Atodiad 1 y ddogfen hon) i'r Pennaeth Perfformiad.

Ymchwiliad cychwynnol a phenderfynu p'un a oes angen ymchwiliad ffurfiol

1.14 Mewn perthynas â'r materion hynny a gaiff eu hatgyfeirio i'r Pennaeth Perfformiad, bydd yn pennu p'un a yw'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y Swyddog Cyfrif, **yn ôl pob golwg**, wedi'i ddarparu'n annigonol ac os felly, p'un a oes angen ymchwiliad ffurfiol. Er mwyn cynorthwyo'r Pennaeth Perfformiad i wneud y penderfyniad hwn, cynhelir ymchwiliad cychwynnol a gaiff ei gydlyn gan y Pennaeth Swyddfa Ddatganoledig/Rheolwr Rhanbarthol perthnasol a'u timau.

1.15 Bydd yr ymchwiliad cychwynnol yn cynnwys gofyn i'r Comisiwn:

- gysylltu â'r Swyddog Cyfrif a/neu ei staff er mwyn trafod y mater a cheisio eglurhad o ran beth sydd wedi digwydd (os na chysylltwyd ag ef eisoes fel rhan o'r broses o roi cymorth yn unol â pharagraff 1.11 neu lle y mae angen rhagor o wybodaeth). Ni fydd yn ofynnol i'r Swyddog Cyfrif wneud unrhyw sylwadau ffurfiol ar yr adeg hon
- cysylltu â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol perthnasol er mwyn trafod y mater (os na chysylltwyd ag ef eisoes) a chasglu unrhyw wybodaeth a all fod ganddo am y mater
- nodi unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael mewn perthynas â'r modd y darparodd y Swyddog Cyfrif y gwasanaeth

1.16 Wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un a oes angen ymchwiliad ffurfiol, bydd y Pennaeth Perfformiad yn gwneud y canlynol:

- ystyried y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymchwiliad cychwynnol
- ystyried y ffactorau a nodir yn Atodiad 1 ac unrhyw faterion perthnasol eraill

1.17 Yn benodol, pan fydd Swyddog Cyfrif wedi llwyddo i ddatrys mater yn foddhaol cyn y bleidlais (gyda chymorth y Comisiwn, y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu fel arall) a phan mai dim ond effaith fach a geir ar y bleidlais, os o gwbl, gall y Pennaeth Perfformiad benderfynu nad oes angen ymchwiliad ffurfiol.

1.18 Os bydd y Pennaeth Perfformiad yn penderfynu nad oes angen ymchwiliad ffurfiol:

- dylai'r Swyddog Cyfrif dan sylw ystyried unrhyw faterion fel rhan o'i werthusiad ar ôl y refferendwm er mwyn nodi pa wersi y gellir eu dysgu a'u hadlewyrchu yn ei drefniadau ar gyfer pleidleisiau yn y dyfodol, os o gwbl, a
- gall y Comisiwn roi awgrymiadau o hyd o ran sut y gellid osgoi materion tebyg yn y dyfodol. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r Swyddog Cyfrif fynd i'r afael â'r awgrymiadau hyn fel rhan o'i werthusiad ar ôl y refferendwm

1.19 Bydd amseriad unrhyw ymchwiliad ffurfiol yn dibynnu ar pryd y bydd y mater yn codi yn ystod cyfnod y refferendwm. Fel y nodir ym mharagraff 1.11, y flaenoriaeth bob amser fydd cymryd camau er mwyn sicrhau y caiff y bleidlais ei chynnal yn llwyddiannus, a bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi cymorth i ddatrys unrhyw faterion cyn y bleidlais, a all olygu na chaiff yr ymchwiliad ffurfiol ei sefydlu tan ar ôl y refferendwm.

Ymchwiliad ffurfiol

1.20 Pan fo'r Pennaeth Perfformiad yn pennu, yn ôl pob golwg, yr ymddengys i'r Swyddog Cyfrif berfformio'n annigonol a bod angen ymchwiliad ffurfiol, bydd yn hysbysu'r Dirprwy Brif Weithredwr a fydd yn gyfrifol am gynnal yr ymchwiliad ffurfiol a pharatoi'r adroddiad rhagarweiniol (gweler isod).

1.21 Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn gwneud y canlynol:

- ffonio'r Swyddog Cyfrif dan sylw er mwyn ei hysbysu y cynhelir ymchwiliad ffurfiol a thrafod ag ef beth y bydd hyn yn ei olygu.
- ysgrifennu at y Swyddog Cyfrif:
 - i'w hysbysu y cynhelir ymchwiliad ffurfiol
 - i grynhoi'r broses ar gyfer yr ymchwiliad ffurfiol hwnnw
 - i grynhoi'r materion
 - i ofyn i'r Swyddog Cyfrif ddarparu unrhyw wybodaeth, deunydd neu gopiâu o ddogfennaeth y cred y Comisiwn y gall fod yn berthnasol i'r ymchwiliad o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr
 - i wahodd y Swyddog Cyfrif i ddarparu sylwadau ysgrifenedig (a all gynnwys unrhyw eglurhad neu ffactorau lliniaru) a rhoi unrhyw wybodaeth, deunydd neu gopiâu o ddogfennau perthnasol i gefnogi'r sylwadau hynny o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr
 - cynnig y cyfle i'r Swyddog Cyfrif gwrdd â chynrychiolydd o'r Comisiwn i drafod y materion
- ysgrifennu at unrhyw blaid neu bleidiau eraill y gall fod ganddynt wybodaeth berthnasol yn ymwneud â darpariaeth y Swyddog Cyfrif o'r gwasanaeth, yn cynnwys y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol yn gwneud y canlynol:
 - gofyn iddo ddarparu unrhyw wybodaeth, deunydd neu gopiâu o ddogfennaeth y cred y Dirprwy Brif Weithredwr y gall fod yn berthnasol i'r ymchwiliad o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr

- ei wahodd i ddarparu sylwadau ysgrifenedig a darparu unrhyw wybodaeth, deunydd neu gopiâu o ddogfennau perthnasol i gefnogi'r sylwadau o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr

Paratoi'r adroddiad rhagarweiniol

1.22 Pan fydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn ystyried bod ganddi'r holl wybodaeth angenrheidiol i barhau yn deg a phriodol, yn cynnwys ar ôl ceisio rhagor o eglurhad a chynghor lle bo angen, bydd yn paratoi adroddiad rhagarweiniol.

1.23 Bydd yr adroddiad rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r materion
- crynodeb o unrhyw sylwadau² a gwybodaeth, deunydd neu gopiâu o ddogfennau a ddarparwyd gan y Swyddog Cyfrif mewn perthynas â'r modd y darparwyd y gwasanaeth
- crynodeb o unrhyw sylwadau a gwybodaeth, deunydd neu gopiâu o ddogfennau a ddarparwyd gan unrhyw bartion eraill mewn perthynas â'r modd y darparwyd y gwasanaeth
- pan fydd ar gael, copi o unrhyw asesiad a gynhaliwyd o ran lefel perfformiad y Swyddog Cyfrif mewn perthynas â'r refferendwm hwnnw
- pan fydd ar gael, copi o'r darnau perthnasol o unrhyw adroddiad a baratowyd ar y broses o weinyddu'r refferendwm dan sylw
- penderfyniad rhagarweiniol ynghylch p'un a oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan y Swyddog Cyfrif wedi'i ddarparu'n annigonol a'r rhesymau dros y penderfyniad hwn (gan gyfeirio at y ffactorau a nodir yn Atodiad 1 o'r nodyn canllaw hwn ac unrhyw beth arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol)
- os mai'r casgliad yw bod y gwasanaeth wedi'i ddarparu'n annigonol, penderfyniad rhagarweiniol ynghylch p'un a ddylid atal neu ostwng y ffi ac, os felly, o faint, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw (gan gyfeirio at y ffactorau a nodir yn Atodiad 2 o'r nodyn canllaw hwn ac unrhyw beth arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol)
- os mai'r casgliad yw y dylid atal neu ostwng y ffi, penderfyniad rhagarweiniol ynghylch y ffi yr ystyrir yn briodol a'r rhesymau dros yr asesiad hwnnw (gan gyfeirio at y ffactorau a nodir yn Atodiad 3 o'r nodyn canllaw hwn ac unrhyw beth arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol)

1.24 Nod y Dirprwy Brif Weithredwr yw cwblhau'r ymchwiliad ffurfiol a pharatoi'r adroddiad rhagarweiniol o fewn 20 diwrnod gwaith i hysbysu'r Swyddog Cyfrif y dylid cynnal ymchwiliad ffurfiol.

1.25 Pan fydd y Dirprwy Brif Weithredwr wedi paratoi'r adroddiad rhagarweiniol, bydd yn ei roi i'r canlynol:

- y Swyddog Cyfrif ac yn rhoi'r cyfle i'r Swyddog Cyfrif wneud unrhyw sylwadau pellach (yn cynnwys unrhyw sylwadau bod y Comisiwn wedi methu ystyried pob ffactor perthnasol) o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr rhagarweiniol

²Pan ofynnir am sylwadau, esbonnir y bydd crynodeb o'i ymateb yn ffurfio rhan o'r adroddiad

- unrhyw barti arall y cred y Dirprwy Brif Weithredwr sy'n briodol a rhoi'r cyfle i'r parti hwnnw wneud unrhyw sylwadau pellach o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr adroddiad rhagarweiniol

1.26 Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn rhoi copi o'r adroddiad rhagarweiniol ac unrhyw sylwadau pellach a gafwyd gan y Swyddog Cyfrif neu unrhyw bartion eraill i'r Prif Weithredwr fel y gall baratoi adroddiad terfynol.

Ymateb terfynol

1.27 Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r adroddiad rhagarweiniol
- Penderfyniad y Prif Weithredwr o ran p'un a gyflawnodd y Swyddog Cyfrif y gwasanaethau'n annigonnol a'r rheswm dros y penderfyniad hwnnw
- Penderfyniad y Prif Weithredwr o ran p'un a ddylid atal neu ostwng y ffi, a'r rheswm dros y penderfyniad hwnnw
- Os yw'r Prif Weithredwr wedi penderfynu y dylid atal neu ostwng y ffi, ei benderfyniad o ran y ffi y mae'n ei hystyried yn briodol yn yr holl amgylchiadau, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw

1.28 Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi copi o'r adroddiad terfynol i'r Swyddog Cyfrif.

1.29 Nod y Prif Weithredwr yw gwneud penderfyniad terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr adroddiad rhagarweiniol a sylwadau pellach.

Adrodd ar y refferendwm

1.30 Fel rhan o'n hadroddiad ar y refferendwm, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad Swyddogion Cyfrif. Efallai y bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cyfeirio at unrhyw achosion pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu bod perfformiad Swyddog Cyfrif yn annigonnol a'i fod wedi gwneud penderfyniad i atal neu ostwng ffi bersonol y Swyddog Cyfrif.

Gohirio'r broses

1.31 Ar unrhyw adeg, gall y Comisiwn ohirio ymchwiliad neu'r broses o lunio adroddiad rhagarweiniol neu adroddiad terfynol hyd nes y ceir canlyniad unrhyw ymchwiliad troseddol neu gamau cyfreithiol eraill, er mwyn sicrhau na roddir yr ymchwiliad troseddol / camau cyfreithiol yn y fantol.

Gostwng hawliad yn wirfoddol

1.32 Gall Swyddogion Cyfrif ddewis hawlio llai na'r uchafswm mewn amgylchiadau lle maent yn ystyried eu bod wedi perfformio'n annigonnol. Ar yr amod bod y Comisiwn yn ystyried bod maint y gostyngiad gwirfoddol yn briodol ym mhob amgylchiad a bod y Swyddog Cyfrif wedi ysgrifennu datganiad yn nodi bod gostyngiad gwirfoddol mewn ffioedd wedi'i gymryd, efallai y byddwn yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Ym mhob achos, byddwn yn parhau i weithio â Swyddogion Cyfrif er mwyn eu helpu gyda'u gwerthusiad, gan roi adborth a chymorth iddynt fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau y gellir nodi'r gwersi a gaiff eu dysgu a'u defnyddio wrth gynllunio ar gyfer pleidleisiau yn y dyfodol.

Herio Asesiad y Comisiwn

1.33 Os bydd Swyddog Cyfrif yn credu bod y Comisiwn wedi methu ag ystyried pob ffactor perthnasol, gall ofyn i Gyngorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Cyllid Pleidiau ac Etholiadau'r Comisiwn adolygu'r penderfyniad. Rhaid derbyn unrhyw gais am adolygiad o fewn deg diwrnod i ddyddiad y llythyr penderfyniad.

1.34 Dylai unrhyw gais am adolygiad nodi'r rhesymau pam y gwneir cais am yr adolygiad.

1.35 Fel arfer, caiff yr adolygiad ei gynnal o fewn 20 diwrnod gwaith i'r cais am yr adolygiad a phan dderbyniwyd y rhesymau dros gynnal yr adolygiad.

1.36 Yna, bydd y Cyngorydd Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Cyllid Pleidiau ac Etholiadau yn gwneud argymhelliad ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr.

1.37 Bydd y Prif Weithredwr yn ystyried yr argymhelliad ac yn pennu p'un a yw ei phenderfyniad gwreiddiol yn sefyll neu a ddylid ei ddiwygio neu ei newid. Caiff y canlyniad hwn ei gyfleu i'r Swyddog Cyfrif.

Atodiad 1

Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a oedd unrhyw wasanaeth a ddarparwyd gan Swyddog Cyfrif wedi'i ddarparu'n annigonol

1.38 Bydd angen ystyried pob achos yn unigol gan ystyried yr amgylchiadau a oedd yn bodoli ar y pryd. Fodd bynnag, wrth benderfynu p'un a gafodd y gwasanaeth ei ddarparu'n annigonol gan y Swyddog Cyfrif, mae'r Comisiwn yn disgwyl ystyried pob un o'r canlynol neu rai ohonynt:

- A yw'r Swyddog Cyfrif wedi gwneud y canlynol:
 - perfformio'n annigonol wrth wneud trefniadau ar gyfer y refferendwm?
 - perfformio'n annigonol wrth gynnal y bleidlais?
 - methu â chyflawni dyletswyddau'r Swyddog Cyfrif yn y refferendwm?
 - methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd gan y Prif Swyddog Cyfrif (oni fydd wedi gwneud cais llwyddiannus am eithriad)
- A yw'r Swyddog Cyfrif wedi methu â chyflawni'r cyfryw weithredoedd a phethau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y refferendwm yn effeithiol yn y modd a ddarparwyd gan reolau'r refferendwm?
- A oedd difrifoldeb, graddau ac effaith unrhyw weithred neu anwaith cymaint i awgrymu bod yn rhaid ei fod wedi perfformio'n annigonol? Felly, er enghraifft:
 - Faint o bobl y mae'r weithred neu anwaith wedi effeithio'n andwyol arnynt?
 - A yw'r weithred neu anwaith wedi arwain at anghyfleustra i randdeiliaid neu a yw'r canlyniadau yn fwy difrifol e.e. difreinio pleidleiswyr?
 - A yw'r weithred neu anwaith yn effeithio ar uniondeb yr holl refferendwm?
 - A yw'r weithred neu anwaith yn debygol o arwain at danseilio hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol?
- A oedd y gwasanaeth a ddarparwyd o safon is na'r safon a geir gan Swyddog Cyfrif cymwys (mae'r Comisiwn wedi llunio canllawiau, a gymeradwywyd gan Fwrdd Rheoli Refferendwm yr UE, sy'n nodi beth y dylai a beth na ddylai Swyddog Cyfrif ei wneud er mwyn cynnal refferendwm yn effeithiol)?
- A fethodd y Swyddog Cyfrif â gwneud yr hyn y byddai Swyddog Cyfrif rhesymol wedi'i wneud yn yr un sefyllfa neu a wnaeth rywbeth na fyddai Swyddog Cyfrif rhesymol wedi'i wneud yn yr un sefyllfa?
- A ellid bod wedi rhagweld canlyniadau unrhyw weithred neu anwaith gan Swyddog Cyfrif rhesymol gymwys?
- A gymerodd y Swyddog Cyfrif gamau er mwyn unioni'r sefyllfa i'r graddau bod yr effaith ar y refferendwm yn fach?

- Os gwnaeth y Comisiwn/Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ymyrryd o ganlyniad i broses o fonitro perfformiad, beth oedd yr ymateb i'r cyngor/arweiniad a roddwyd (e.e. a gafodd y cyngor/arweiniad hwnnw ei ystyried)?

Atodiad 2

Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid atal neu ostwng y ffi

1.39 Bydd angen ystyried pob achos yn unigol gan ystyried yr amgylchiadau a oedd yn bodoli ar y pryd. Fodd bynnag, wrth benderfynu a ddylid atal neu ostwng y ffi, mae'r Comisiwn yn disgwyl ystyried pob un o'r canlynol neu rai ohonynt:

- A ganfu'r Comisiwn bod y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Swyddog Cyfrif wedi'u darparu'n annigonol?
- A oedd difrifoldeb, graddau ac effaith y perfformiad annigonol cymaint i awgrymu y dylid atal neu ostwng y ffi?
- A oedd y perfformiad annigonol yn fwriadol neu o ganlyniad i ddiystyrwch ar ran y Swyddog Cyfrif, neu a oedd unrhyw ffactorau cythruddol eraill?
- Pa ffactorau lliniarol sy'n bodoli (er enghraifft, a oedd y Swyddog Cyfrif yn cydymffurfio ag arfer cyffredin wrth ddarparu ei wasanaethau (oni fydd yr arfer cyffredin yn esgeulus))?

Atodiad 3

Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu beth ddylai'r ffi briodol fod

1.40 Bydd angen ystyried pob achos yn unigol gan ystyried yr amgylchiadau a oedd yn bodoli ar y pryd. Fodd bynnag, wrth benderfynu faint y dylid gostwng y ffi neu a ddylid ei hatal yn gyfan gwbl, mae'r Comisiwn yn disgwyl ystyried pob un o'r canlynol neu rai ohonynt:

- Beth oedd difrifoldeb, graddau ac effaith y perfformiad annigonol?
- A oedd unrhyw ffactorau cythruddol, fel bwriad neu ddiystyrwch ar ran y Swyddog Cyfrif?
- Pa ffactorau cythruddol sy'n bodoli?

Atodiad 4

Proses a chyfradd amser ar gyfer penderfynu a ddylid atal neu ostwng y ffi

